



Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 27 Mehefin yn Llanbedr Pont Steffan

2015.15 Addoli agoriadol a chroeso

Mae *Qf&p* 24.44 ac adran olaf 24.49 wedi'u darllen yn ein haddoli agoriadol. Rydym wedi croesawu 28 o Gyfeillion i'r Cyfarfod hwn fel a restrir ar y daflen bresenoldeb.

Penodwyd y Cyfeillion canlynol gan eu Cyfarfodydd Ardal i fod yn bresennol:

Canolbarth Cymru:	Dorothy Bell
Gogledd Cymru:	Catherine James a Frances Voelcker
Gororau'r De:	Stevie Kraye
De Cymru:	Julia Lim

Ein henaduriaid heddiw yw Catherine James a Liz McDermott

2015.16 *Calon a The Friend*

Mae Hilary Beynon wedi cytuno i ysgrifennu am y cyfarfod hwn i *Calon* ac mae Christine Trevett wedi cytuno i ysgrifennu i *The Friend*.

2015.17 Penwythnos preswyl Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, yng Nghefnws, ger Machynlleth

Rydym wedi derbyn adroddiad Mike Clark am y Penwythnos Preswyl yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, Ceinws, o 27 Chwefror tan 1 Mawrth 2015. Bu'r gynhadledd yn edrych ar y ffordd y mae gwastraff adnoddau cynyddol yn achosi mwyfwy o ddifrod i'r tir o'n cwmpas ac yn dihybyddu adnoddau anadnewyddadwy. Roedd yn gofyn sut mae'r system economaidd bresennol yn cynnal hyn, beth yw ein gweledigaeth o fyd cyfiawn a chynaliadwy a pha gamau y gellid eu cymryd i'w sicrhau.

Ar ddiwedd y gynhadledd, bu Cyfeillion yn rhannu â phartner rywbeth y gallent ei wneud i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Gobeithiwn y gallai'r rheini oedd yn bresennol ddweud wrth ein cyfarfod fis Chwefror nesa sut maent wedi cadw at yr ymrwymiad hwn yn eu tyb nhw.

Bu Cyfeillion yma heddiw'n trafod y tanwydd a ddefnyddir wrth fynychu cynadleddau a chyfarfodydd. Gallwn ystyried defnyddio trenau, yn ogystal â thechnoleg fodern.

Mae Martin Hughes wedi rhannu mwy o sylwadau am y penwythnos preswyl hwn. Rydym yn diolch i Martin a Mike am yr adroddiadau hyn.

2015.18 Adroddiadau gan

i) CYTŪN am y Cyfarfod ym mis Mehefin 2015

Adroddodd Deborah Rowlands am Gyfarfod CYTŪN 4 Mehefin dan y teitl: 'Yn gymaint â'i wneuthur ohonoch i un o'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch'. Tynnwyd sylw'r eglwysi at sefyllfa druenus y ffoaduriaid diymgeledd ym Môr y Canoldir. Mae CYTŪN yn ei weld ei hun fel fforwm i rannu straeon a barn ddiwinyddol, a thrwy hynny greu undod nid yn unig ymhlith eglwysi Cristnogol ond hefyd yn rhinwedd ei swyddogaeth fel ysgrifenyddiaeth ar gyfer Cyngor Rhyng-ffydd Cymru. Rydym yn diolch i Deborah am ei hadroddiad.

ii) Cyfarfod Eiriolaeth yn y Pales – 1 Mehefin 2015

Mewn ymateb i'n hymwneud â CYTŪN a'i bryderon ynglŷn ag etholiadau 2016 i Gynulliad Cymru a'r polisïau yr hoffai'r eglwysi eu hargymell, bu Deborah, tîm y clercod a Grŵp Ffocws Cymru Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, ynghyd â chynrychiolwr o'r grŵp trefniadau, yn cyfarfod â Jane Dawson o Friends House i ystyried materion eiriolaeth a sut mae'r Cyfeillion fel corff yn delio â hi. Mae Deborah wedi adrodd am y cyfarfod hwnnw.

Mae Swyddog Polisi newydd CYTŪN, Gethin Rhys, wedi trefnu cyfarfodydd rheolaidd lle y gall Swyddogion Polisi Cymdeithasol eglwysi a chynrychiolwyr cyrff perthnasol eraill ddod ynghyd i gyfnewid gwybodaeth am eu pryderon ar y pryd a chlywed am ddeddfwriaeth sydd ar ddod.

Rydym yn gofyn i'n pwyllgor enwebiadau gael hyd i Gyfaill i'n cynrychioli yng Nghyfarfodydd Swyddogion Polisi'r Eglwysi.

Mae angen strategaeth arnom a ddylai fod yn ddigon cynhwysfawr i ddiffinio beth sy'n berthnasol i Gymru a beth sydd ddim. ***Cytunwyd i drefnu gweithdy ar 19 Medi yn Nhŷ Cwrdd Aberystwyth i unrhyw un sydd am ei fynychu.*** Rydym wedi gwahodd Gethin Rhys (CYTŪN) a Jessica Metheringham (Swyddog Ymgysylltu Seneddol Cyfarfod Blynyddol Prydain) i gefnogi'r digwyddiad hwn, ynghyd ag Elizabeth Allen o Grŵp Swyddogaethau Seneddol Cyfarfod Cyffredinol yr Alban. Teitl posibl i'r gweithdy fyddai: '**Gweledigaeth i Gymru**'. Ar wahân i'w wneud yn fenter ddysgu am wleidyddiaeth y Cynulliad, gallai geisio llunio rhywbeth fel Manifesto ar gyfer Gwell Cymdeithas yng Nghymru, wedi'i seilio ar werthoedd y Crynwyr, i helpu'r Grŵp Ffocws i bennu ei agenda ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf. Ein gobaith yw y bydd yr holl Gyfarfodydd Ardal a Chyrddau Lleol yn penodi Cyfeillion i fynychu'r cyfarfod hwn.

Rydym yn gofyn i'r Cyfeillion oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Eiriolaeth ar 1 Mehefin gytuno i ffurfio'r grŵp trefnu, ar y cyd â'r clercod.

2015.19 Cofnod i Bwyllgor Agenda Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol

Gyda datganoli cynyddol i Gymru a'r Alban, mae'n bwysig bod Cyfarfod Blynyddol Prydain yn glir nad yw'n siarad dros Brydain gyfan pan fydd cyhoeddiadau, gweithgareddau a reolir yn ganolog neu ddatganiadau, yn ddiofal, yn anwybyddu'r realiti yn y cenedloedd datganoledig. Rydym yn cytuno i anfon y cofnod hwn at y pwyllgor agenda gan awgrymu y dylai eitem mewn Cyfarfod Blynyddol yn y dyfodol drafod effeithiau datganoli ar Gymdeithas y Cyfeillion.

Rydym yn cytuno i anfon y cofnod hwn at y Pwyllgor Agenda.

2015.20 Materion Ymestyn Allan

i. Presenoldeb y Crynwyr ym Mhabell CYTŪN yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, 2015

Gill Branch a Christine Lewis fydd yng ngofal presenoldeb y Crynwyr yn y sioe yn Llanelwedd 20–23 Gorffennaf. Rydym yn edrych ymlaen at glywed ganddynt ar ôl y digwyddiad.

ii. Presenoldeb y Crynwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Meifod, 2015

Mae ein swyddog gweinyddol wedi anfon ffurflenni at gyfarfodydd lleol gan wahodd gwirfoddolwyr ar gyfer gweithgareddau'r wythnos ac ar hyn o bryd yn gwneud trefniadau i'r adnoddau angenrheidiol gael eu darparu i'r trefnwyr.

Mae Alan a Cynthia Rowland yn gobeithio cael mwy o wirfoddolwyr i helpu yn ystod wythnos yr Eisteddfod – rydym yn gobeithio y bydd mwy o Gyfeillion yn cynnig help.

Mae Tŷ Cwrdd Dolobran yn agos i faes yr Eisteddfod a bydd taith gerdded yn cael ei threfnu o babell CYTŪN i'r Tŷ Cwrdd, lle gall cyfranogwyr glywed rhywfaint o hanes y Crynwyr a chynnal cyfarfod addoli. Mae llety ar gael ger y Tŷ Cwrdd am £20 y noson. Bydd amserau a chyfeiriadau'n cael eu rhoi ar y wefan am y daith a'r llety.

2015.21 Adroddiad am Gyngor Cynrychioladol *Quaker Life*

Rydym wedi clywed adroddiad Angela Ormond am Gyngor Cynrychioladol *Quaker Life*, 17-19 Ebrill 2015, a edrychodd ar 'ymagwedd ysbrydol tuag at wrthdaro yn ein cymunedau Crynwrol'. Traddododd Izzy Cartright QPSW anerchiad am wrthdaro mewn cyfarfodydd a fydd yn cael ei ddosbarthu i'r holl gyrddau lleol. Cafodd y ddrama '*Red Flag Over Bermondsey*' ei pherfformio, drama a soniai am waith y Grynwraig Ada Salter yn ei chymuned a'i theulu. Cawson ni wybod bod yr adnodd newydd '*Being Friends Together*' bellach ar gael ar-lein. Mae hwn yn gwahodd cyfarfodydd/cyrddau i danysgrifio am ffi flynyddol o £35 y caiff pob aelod ohonynt fynd ato. Rydym yn diolch i Angela am yr adroddiad hwn.

2015.22 Adroddiad am y Cyfarfod Dioddefiadau, Mawrth 2015

Rydym wedi derbyn adroddiad Dave Butler am y Cyfarfod Dioddefiadau a gynhaliwyd yn Friends House 28 Mawrth 2015. Mae Q-CAT ar hyn o bryd yn datblygu gweithdy yn y Cyfarfod Blynyddol i gael Cyfeillion i feddwl am ffeidd-dra ac anghyfreithlondeb arteithio. Roedd amddifadrwydd Ceiswyr Lloches yn destun pryder dybryd. Bydd Rhwydwaith Lloches a Ffoaduriaid y Crynwyr yn datblygu datganiad cyhoeddus i helpu Cyfeillion lleol i godi ymwybyddiaeth am y mater yma. Clywyd enghreifftiau o sut mae Cyfeillion yn lleol yn cryfhau rhwymau cyfeillgarwch gyda chymunedau Mwslimaidd i liniaru Islamoffobia. Rydym yn diolch i Dave am ei adroddiad.

Cyfarfod Dioddefiadau olaf Dave oedd hwn fel ein cynrychiolydd, er ei fod yn parhau fel Dirprwy i Gyfarfod Ardal Canolbarth Cymru. Rydym yn diolch iddo am ei wasanaeth dros y blynyddoedd.

2015.23 Adroddiad Pwyllgor Cysylltiadau Cristnogol a Rhyng-ffydd y Crynwyr

Rydym wedi derbyn adroddiad Martin Plant am Bwyllgor Cysylltiadau Cristnogol a Rhyng-ffydd y Crynwyr (PCCRhC). Mae'r pwyllgor hwn wedi gweithio'n bennaf ar dair thema: gwaith rhyng-ffydd gyda'n cyfeillion Mwslimaidd, papur Cyngor Eglwysi'r Byd (CEB) *The Church – Towards a Common Vision* a Theistiaeth ac Antheistiaeth. Pwysleisiwyd yr angen cynyddol i gydweithio â Mwslimiaid, yng ngoleuni ymdrechion i gyfystyru Islam â therfysgaeth. Mae papur CEB yn ein gwahodd i dyfu mewn cymundeb ac i gydweithio dros heddwch a chyfiawnder yn y byd. Mae'r pwyllgor yn gweld ei rôl fel fforwm posibl i Grynwyr gael lleisio eu credoau a'u dealltwriaeth ysbrydol yn onest am ymagwedd antheistaidd.

Hwn oedd Cyfarfod PCCRhC olaf Martin fel ein cynrychiolydd. Rydym yn diolch iddo am yr adroddiad hwn ac am ei wasanaeth.

2015.24 Eiriolwyr dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc – adroddiad Cyfaill Cymorth

Mae Chris Holmquist wedi cynnig blas o waith y Cyfeillion yng Nghymru â phlant a phobl ifainc ac mae'n argymhell ein bod yn ymgalonogi o'r herwydd. O waith rheolaidd â phlant ac addoli pob oedran mewn rhai cyfarfodydd, drwy obeithio cychwyn y dechneg 'Chwarae Duwiol' yng ngogledd Cymru, sef adrodd straeon a myfyrio, i annog Cyfeillion Ifainc i gymryd rhan mewn rhaglenni arweinyddiaeth, dangosodd i ni beth oedd yn digwydd yng Nghymru. Mae adnoddau a hyfforddiant ar gael i'r rheini sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc a dylai'r ffaith bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn mynd yn gynt ac yn llai o fwrn fod yn hwb i Gyfeillion i gyfranogi o'r gwaith yma. Mae'r holl gyfarfod yn ysgwyddo cyfrifoldeb am yr ifainc. Rydym yn diolch i Chris am yr adroddiad yma.

2015.25 Materion yr Ymddiriedolwyr a Chyllid

Fe'n hysbyswyd gan Glerc yr Ymddiriedolwyr, Frank Brown, fod Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr wedi cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Elusennau ac mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar wefan Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru neu ar ffurf copïau papur gan Jules Montgomery, ein swyddog gweinyddol. Mae hyn yn unol â gofynion deddfwriaeth elusennau.

2015.26 Siaradwraig – Alexandra Bosbeer – Cyngor Materion Ewropeaidd y Crynwyr (CMEC)

Soniodd Alexandra Bosbeer, CMEC, wrthym am beth mae llais y Crynwyr ym Mrwsel wedi bod yn ei ddweud ar lefel yr Undeb Ewropeaidd (UE). Nid yw CMEC o dan rawd unrhyw Gyfarfod Blynyddol ac mae ganddo gynrychiolwyr o Gyfarfodydd Blynyddol ar draws Ewrop.

Fe'n gwahoddodd i awgrymu beth y dylai'r UE fod wrthi'n ei wneud dros heddwch heddiw a llesiant dynol.

Drwy 'Rybuddion Gweithredu' CMEC, fe'n hatgoffodd, gall Cyfeillion gael gwybodaeth a chyfeirbwyntiau at weithredu y byddent efallai am gymryd rhan ynddo.

Mae staff CMEC bob amser yn falch o helpu ag unrhyw ymholiadau. Rydym yn diolch i Alexandra am rannu gyda ni heddiw.

2015.27 Cymru'n Cofio 1914–1918

Mae Alan Armstrong wedi anfon atom ei adroddiad am gyfarfodydd diweddar. Mae canolbwynt y sylw eleni ar Galipoli, ymgyrch lle bu catrodau Cymru'n cyfrannu'n helaeth.

Clywsom am 'gatrodau'r cyfeillion' o bentre chwarelyddol Penmaen-mawr a lasenwyd yn 'Hogia'r Chwarel' a aeth i ymladd yn Sulva ar 10 Awst 1915 – cynhelir arddangosfa yn Amgueddfa Penmaen-mawr ar 8 a 9 Awst yn ogystal â digwyddiad coffa. Diolchwn i Alan am ei adroddiad.

2015.28 Cymru a materion heddwch

Mae Jane Harries wedi rhoi diweddariad i ni am y mentrau yng Nghymru sy'n ymwneud â Heddwch. Clymblaid o 9 partner yw Cymru dros Heddwch, megis Prifysgolion Caerdydd ac Aberystwyth, Amgueddfa Cymru, yr Urdd ac eraill sydd eisiau casglu hanes cudd y tangnefeddwyr ac ysbrydoli ac ymgysylltu â phobl. Ariennir y prosiect hwn gan y Loteri Genedlaethol sy'n destun pryder i Gyfeillion.

2015.29 Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a Phrosiectau a ariennir gan y Loteri

O bryd i'w gilydd, sonnir wrth glerc cod y dylai Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ddangos cadernid neu fod mewn partneriaeth â gwahanol fathau o brosiectau. Weithiau, mae i'w weld yn glir mai achosion yw'r rhain y byddai'r Cyfeillion yn cydymdeimlo â nhw – yn wir gall fod Cyfeillion unigol yn ymwneud â nhw. Enghraifft ddiweddar yw'r prosiect Cymru Dros Heddwch. Mae'n bosib hefyd eu bod yn derbyn cyllid gan y Loteri a gallai Cyfeillion eraill weld hynny'n faen tramgwydd i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ymochri â pha bynnag prosiect sydd dan sylw. Y gwir amdani yw bod cymaint o waith dyngarol, treftadaeth ac arall bellach yn ddibynol ar gyllid y Loteri.

Bu hon yn drafodaeth anodd i ni: fe'n hatgoffir bod llawer yn ein bywydau'n gysylltiedig â gamblo mewn rhyw ffordd. A yw'r Loteri'n bwrw amheuaeth ar ein huniondeb? Rydym yn cael ein hatgoffa am bwysigrwydd craffter a'n bod ni, fel Cyfeillion, yn gallu ymgyrchu yn erbyn gamblo.

Mae'r cyfarfod hwn wedi cytuno y dylai'r cler cod ddod â phob achos gerbron yn ei dro pan fydd amser i wneud hynny, a dylent ymgynghori pan fydd amser yn brin gan adrodd yn ôl wrth y cyfarfod nesaf.

2015.30 Cyfarfodydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn y dyfodol

24 Hydref 2015 Y Trallwng – *Naseer Arafat, Pensaer Palesteinaidd*

Yn 2016 bydd y cyfarfodydd fel a ganlyn:

27 Chwefror *Machynlleth*, Marilyn ac Alan Thomas, Dinas Nodded

25 Mehefin yn y *Pales*, Sophie Gilliat-Ray, Mwslimiaid â Phrydain/Cymru

22 Hydref *Llanidloes*, Carolyn Sansom, Iechyd Meddwl

Rydym yn diolch i'r pwyllgor trefniadau am eu holl gynllunio.

2015.31 Enwebiadau a Phenodiadau

i. Penodiadau a wnaethpwyd rhwng Cyfarfodydd

- Cyfaill i wasanaethu ar y Pwyllgor Enwebiadau, yn syth a hyd at 31/12/2016 – **Julia Lim**
- Cyfaill i gynrychioli Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar 2 Gorffennaf yng Nghynulliad Blyneddol Undeb yr Annibynwyr Cymreig. Te croeso yn Nant Gwrtheyrn – **Bethan Wyn**
- Dau gyfaill i ddarparu presenoldeb y Crynwyr mewn gwaith eciwmenaid yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd – **Gill Branch a Christine Lewis**

ii Enwebiadau a dderbyniwyd

- Trysorydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru 01/01/2016–31/12/2018 – **Martin Hughes**
Mae ein pwyllgor enwebiadau wedi dwyn gerbron enw Martin Hughes i wasanaethu fel trysorydd am dair blynedd o 01/01/2016. A bwrw bod yr enw hwn yn dderbyniol, a'r Cyfaill dan sylw yn fodlon gwasanaethu, fe'i penodir.

iii Enwebiadau a geisir

- Cyfaill i wasanaethu ar Bwyllgor Cysylltiadau Cristnogol a Rhyng-ffydd y Crynwyr, yn syth a hyd at 30 Ebrill 2018
- Cyfaill i fynychu'r Cydbwyllgor Heddwch a Thystiolaeth Gymdeithasol y Crynwyr a Phwyllgor Cysylltiadau Cristnogol a Rhyng-ffydd y Crynwyr, 26 Medi 2015
- Cyfaill i wasanaethu ar y Pwyllgor Trefniadau, yn syth a hyd at 31/12/2017
- Cyfaill i wasanaethu ar y Pwyllgor Trefniadau hyd at 31/12/2018
- Cyfaill i wasanaethu ar y Grŵp Adnoddau, yn syth a hyd at 31/12/2016
- Cyfaill Ifanc i wasanaethu ar y Grŵp Ffocws (gweler cofnod 2012.46), yn syth a hyd at 31/12/2017. Rydym hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor Enwebiadau awgrymu dyddiadau cyfnodol ar gyfer aelodau presennol y pwyllgor hwn
- 2 Gyfaill i wasanaethu fel Ymddiriedolwyr Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, o 01/01/2016–31/12/2018
- Cyfaill i wasanaethu fel clerccynorthwyol am flwyddyn o 01/01/2016
- Cyfaill i wasanaethu fel cyd-glerc am dair blynedd o 01/01/2016
- Enwebai ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau i wasanaethu o 01/01/2016–31/12/2018 (Julia Aspden/Bryn D. Jones yn chwilio)